**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR IAITH Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 16 Ebrill 2013 |
| **TEITL** | Adroddiad ar gynnydd disgyblion y Canolfannau Iaith |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Sian Gwenllian |

**CEFNDIR**

Nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

Mae cyswllt da yn bodoli rhwng yr ysgolion a'r canolfannau, a'u llwyddiant i'w weld yn amlwg pan ddychwela'r disgyblion i'w hysgolion a'u cymunedau gyda sylfaen gadarn yn y Gymraeg wedi tymor o ddysgu dwys, (hanner tymor yn Y Ganolfan Uwchradd).

Erbyn hyn mae pedair canolfan gynradd ac un ganolfan uwchradd, sy'n gwbl unigryw yng Nghymru. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog.

Caiff y sefyllfa o ran nifer y disgyblion a'r ddarpariaeth ei monitro yn rheolaidd, gydag Ymgynghorydd y Gymraeg (Swyddog y Gymraeg mewn Addysg o Ebrill 2013) yn ymweld ac yn cynnal trafodaethau a chyfarfodydd ffurfiol rheolaidd.

Rhwng 2005 a Hydref 2012 mae cyfanswm o **1056** o ddisgyblion cynradd a **358** o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith.

Er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn yr ysgolion bydd athrawon y canolfannau yn cynnig ôl-ofal i bob disgybl wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion, yn ogystal â rhoi arweiniad i athrawon ynglŷn â'r dilyniant priodol ar gyfer y disgyblion.

Yn ystod tymor yr Hydref 2009, datblygwyd ymhellach y strategaeth ôl–ofal oedd yn bodoli yn y Canolfannau Cynradd, a chyflwynwyd hwn i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac mae bellach ar waith ers tymor y Gwanwyn 2010.

Penodwyd ail athrawes (swydd barhaol) i'r Ganolfan Iaith Uwchradd ym Medi 2012 gan ddatblygu ymhellach weithrediad y rhaglenni ôl-ofal i'r disgyblion gan gynnig arweiniad i'r ysgolion uwchradd yn ôl yr angen. Mae'r elfen hon yn greiddiol i lwyddiant y gwaith.

**CANOLFANNAU IAITH CYNRADD**

Nodir isod wybodaeth ynglŷn â chanran y disgyblion sy'n dilyn y Gymraeg fel Iaith 1af ar ôl iddynt drosglwyddo i'r uwchradd (2010 - 2012), sydd yn galonogol iawn.

**Canolfan Iaith Cefn Coch**

| Blwyddyn | Cyfanswm | Iaith 1af | Ail iaith | Canran yn dilyn iaith 1af |
|---|---|---|---|---|
| '12 | 24 | 22 | 2 | 91% |
| '11 | 25 | 25 | 0 | 100% |
| '10 | 26 | 19 | 7 | 73% |

**Canolfan Iaith Llangybi**

| Blwyddyn | Cyfanswm | Iaith 1af | Ail iaith | Canran yn dilyn iaith 1af |
|---|---|---|---|---|
| '12 | 13 | 12 | 1 | 92% |
| '11 | 8 | 8 | 0 | 100% |
| '10 | 19 | 18 | 1 | 94% |

**Canolfan Iaith Dolgellau**

| Blwyddyn | Cyfanswm | Iaith 1af | Ail iaith | Canran yn dilyn iaith 1af |
|---|---|---|---|---|
| **'12** | 5 | 4 | 1 | 80% |
| **'11** | 2 | 1 | 1 | 50% |
| **'10** | 9 | 4 | 5 | 44% |

**Canolfan Iaith Maesincla**

(Heb gynnwys data Ysgol Friars, sef y plant nad ydynt yn mynd i Ysgol Friars)

| Blwyddyn | Cyfanswm | Iaith 1af | Ail iaith | Canran yn dilyn iaith 1af |
|---|---|---|---|---|
| **'12** | 4 | 4 | 0 | 100% |
| **'11** | 6 | 6 | 0 | 100% |
| **'10** | 6 | 6 | 0 | 100% |

**Canolfan Iaith Maesincla**

(Yn cynnwys data Ysgol Friars, sef y plant sydd yn mynd i Ysgol Friars)

| Blwyddyn | Cyfanswm | Iaith 1af | Ail iaith | Canran yn dilyn iaith 1af |
|---|---|---|---|---|
| **'12** | 13 | 6 | 7 | 46% |
| **'11** | 18 | 6 | 12 | 33% |
| **'10** | 30 | 6 | 24 | 20% |

**CANOLFAN IAITH UWCHRADD**

Nodir isod wybodaeth ynglyn â chanlyniadau cyn ddisgyblion y Ganolfan Iaith Uwchradd sydd wedi sefyll arholiadau (cronfa ddata ers 2007):

- Cymraeg Iaith Gyntaf (TGAU)
- Cymraeg Ail Iaith (TGAU)
- Cymraeg Iaith Gyntaf (Lefel Mynediad)
- Cymraeg Ail Iaith (Lefel Mynediad)

**Cymraeg Iaith Gyntaf (TGAU)**
**Nifer - 20**

| A* | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 1 | 6 | 6 | 5 | 2 |

**Cymraeg Ail Iaith (TGAU)**
**Nifer - 56**

| A* | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | 12 | 7 | 10 | 11 | 3 | 1 |

**Cymraeg Iaith Gyntaf (Lefel Mynediad)**
**Nifer - 4**

| Gradd 1 | Gradd 2 |
|---|---|
| 1 | 3 |

**Cymraeg Ail Iaith (Lefel Mynediad)**
**Nifer – 1**

| Gradd 3 |
|---|
| 1 |

Mae cynnydd disgyblion sydd wedi mynychu'r ganolfan iaith yn galonogol iawn, a braf yw nodi bod nifer o ddisgyblion wedi croesi'r bont, ac yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf.

---

Mae'r ddarpariaeth a gynigir yn effeithiol ac o ansawdd uchel iawn. Y llwyddiant mwyaf arwyddocaol yw'r ffaith bod disgyblion yn dychwelyd i'w hysgolion gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn eu hail-iaith, yn ymroi i'w rhaglenni addysgol ac yn integreiddio i gymuned yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'n werth nodi bod cynnydd rhai unigolion o ddisgyblion yn rhagorol.

Cydnabyddir a gwerthfawrogir y ddarpariaeth ardderchog a gynigir gan y Canolfannau Iaith Cynradd ac Uwchradd.

Yn arolygiad diweddar Yr Awdurdod, fe nododd Estyn bod y gwaith ar hybu'r Gymraeg yn arwain y sector, a bod cyfraniad y Canolfannau Iaith yn rhan greiddiol o'r llwyddiant hwn.

**ARGYMHELLIAD**
Gofynnir i'r Pwyllgor Iaith dderbyn y wybodaeth.